**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 6ed Chwefror, 2024, 2.00 pm**

**CYNGHORWYR YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Sara Burch, Jan Butler, John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley, Ann Webb

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Craig O'Connor | Pennaeth Cynllunio |
| Philip Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |
| Andrew Jones | Development Management Area Team Manager |
| Amy Longford | Rheolwr Treftadaeth |
| Paige Moseley | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Anna Hawker | Trainee Solicitor |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol Su McConnel

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Gwnaeth y Cynghorydd Sir Sara Burch ddatganiad o fuddiant personol a rhagfarnol yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt cais DM/2022/01831, oherwydd ei hymgyfraniad blaenorol gyda'r cynllun ac ymgynghoriad pan oedd yn Aelod Cabinet yn gyfrifol am Deithio Llesol. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth neu bleidleisio ar hynny.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir Dale Rooke ddatganiad o fuddiant personol a rhagfarnol yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt cais DM/2023/01562, gan ei fod yn un o gynrychiolwyr Cyngor Tref Cas-gwent sydd wedi cefnogi Grŵp Parc Chwaraeon Cyfeilion y Dell. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth neu bleidleisio ar hynny.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 10 Ionawr 2024 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

3. **Cais DM/2022/01831 - Gwelliannau i'r cysylltedd presennol i gerddwyr a beicwyr ar draws Dolydd y Castell trwy ddarparu llwybrau sy'n cydymffurfio â Theithio Llesol. Gan gynnwys uwchraddio llwybrau presennol, pwyntiau mynediad ac ailosod y bont droed bresennol dros Afon Gafenni. Tir yn Nolydd y Castell, Y Fenni, Sir Fynwy.**

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer ei chymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

https://www.youtube.com/live/7mdGfiFwxF8?si=68S9tIDlk5j72kJu&t=201

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 6ed Chwefror, 2024, 2.00 pm**

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a gafwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Ann Webb ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Emma Bryn y dylid cymeradwyo cais DM/2022/01831 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Pan y'i rhoddwyd i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 12 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Ymatal | - | 1 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2022/01831 gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

4. **Cais DM/2023/01562 - Amnewid ac adleoli'r man chwarae presennol i blant ym Mhant y Castell. Bwriedir symud yr holl eitemau offer chwarae presennol ac ail-leoli ychydig ar ffin y maes chwarae i'r gogledd, oddi wrth Wal y Dref. Gosod offer ychwanegol rhwng y man chwarae wedi'i hadleoli a'r ffynnon ddŵr a gosod llithren fanc uchel o lefel uchaf y safle i lawr i'r llwybr troed isaf. Man Chwarae, Pant y Castell, Welsh Street, Cas-gwent.**

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

https://www.youtube.com/live/7mdGfiFwxF8?si=DntnTVRduPJbxDxe&t=4115

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a gafwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Ann Webb ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Emma Bryn y dylid cymeradwyo cais DM/2023/01562 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Pan y'i rhoddwyd i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 14 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Ymatal | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2023/01562 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

5. **Cod Ymarfer Cynllunio (Diwygiedig).**

Ystyriwyd y Cod Ymarfer Cynllunio diwygiedig.

https://www.youtube.com/live/7mdGfiFwxF8?si=n_sBUaJ4Z9YsAwnb&t=4949

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Fay Bromfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Dale Rooke y dylid cymeradwyo'r Cod Ymarfer Cynllunio diwygiedig heb ei ddiwygio ac iddo gael ei gyfeirio at Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Fynwy ar 11 Mawrth 2014.

Pan y'i rhoddwyd i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid y cynnig - 14
Yn erbyn y cynnig - 0
Ymatal - 0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2023/01562 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad..

**6. <u>ER GWYBODAETH - Apeliadau Cynllunio a Dderbyniwyd - 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2023.</u>**

Nodwyd yr apeliadau cynllunio a gafwyd gan yr Adran Cynllunio ar gyfer y cyfnod 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2023.